

2006 Rhif 53

ADDYSG, CYMRU

**Deddf Dysgu a Medrau 2000
Cymeradwyo Cymwysterau'n
Statudol o dan Adran 99
at Ddibenion Adran 96 ac Adran
97**

Wedi'i wneud 20 Gorffennaf 2006

Yn dod i rym 21 Gorffennaf 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae adran 96 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (“y Ddeddf”) yn berthnasol i gymwysterau allanol a ddarperir gan neu ar ran ysgol neu sefydliad neu gyflogwr i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol neu i rai sy'n hŷn na'r oedran hwnnw ond sydd o dan 19 oed. Oni fydd cymwysterau o'r fath wedi'u cymeradwyo o dan adran 99 o'r Ddeddf ni ellir ariannu cwrs sy'n arwain at gymhwyster o'r fath gan “gorff awdurdodedig” na'i ddarparu gan neu ar ran ysgol a gynhelir.

Mae diffiniad o gyrff awdurdodedig at y dibenion hyn yn adran 100(2) o'r Ddeddf. Ar hyn o bryd y rhain yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau addysg lleol.

Mae adran 97 o'r Ddeddf yn gymwys i gwrs addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan sefydliad neu gyflogwr ar gyfer personau sy'n 19 oed neu'n hŷn ac sy'n arwain at gymhwyster allanol. Mae adran 97 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus i dalu ffioedd a chostau'r cymwysterau allanol hynny sydd wedi'u cymeradwyo yn unig.

2006 Rhif 53

ADDYSG, CYMRU

**Deddf Dysgu a Medrau 2000
Cymeradwyo Cymwysterau'n
Statudol o dan Adran 99
at Ddibenion Adran 96 ac Adran
97**

Wedi'i wneud 20 Gorffennaf 2006

Yn dod i rym 21 Gorffennaf 2006

Mae'r Offeryn hwn yn cymeradwyo cymwysterau allanol o dan adran 99 o'r Ddeddf.

Cymhwysiad a statws

Daw'r Offeryn hwn i rym ar 21 Gorffennaf 2006. O'r dyddiad hwnnw ymlaen mae'r cymwysterau allanol y cyfeirir atynt isod wedi'u cymeradwyo o dan adran 99 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 at ddibenion adran 96 ac adran 97 o'r Ddeddf honno. Mae'r cymwysterau allanol hyn sydd wedi'u cymeradwyo yn disodli'r rhai a gymeradwywyd yn Ebrill 2006.

Mae adran 99 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn darparu ar gyfer cymwysterau i'w cymeradwyo naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol. Rhestrir cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo mewn perthynas ag achosion penodedig yn new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy. Cymeradwyir y categorïau canlynol o gymwysterau yn gyffredinol:

(a) unrhyw gymhwyster lle tynnwyd y gymeradwyaeth yn ôl, ar yr amod bod enw'r dysgwr sy'n cymryd y cwrs cysylltiedig wedi'i roi i lawr ar gyfer yr arholiad (neu'r asesiad) cyn hynny ac mai bwriad y cwrs yn unig yw ei alluogi i ailsefyll;

(b) ar gyfer y rhai hynny hyd at a chan gynnwys Cyfnod Allweddol 4, cymhwyster allanol, beth

bynnag fo'r pwnc neu'r rhestr yn Adran A o
Atodiad 1 ac Atodiad 2, os yw'r cwrs astudio
cysylltiedig wedi'i ddarparu

i. yn gyfan gwbl y tu allan i oriau
amserlen yr ysgol; a/neu

ii. mewn ysgolion cynradd.

(c) pob cymhwyster a gynigir gan Awdurdod
Cymwysterau'r Alban

(ch) Mae'r Cymwysterau Asset Languages ar
gyfer Ieithoedd Tramor Modern sydd wedi eu
cymeradwyo gan DfES i'w defnyddio yn Lloegr
hefyd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yng
Nghymru.

Llofnodwyd: Jane Davidson

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2006

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a
Sgiliau